# YR AELOD CABINET DROS ADDYSG A'R GYMRAEG

**DYDD** Mercher, 24 Ionawr 2024

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd (Yn Bersonnol):** G. Davies (Aelod o'r Cabinet)

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol (Yn y Siambr):**
K. Evans – Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Swyddfa Aelod o'r Cabinet, Neuadd y Sir, Caerfyrddin - 9.00yb - 9.10yb

## 1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

## 2. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR GOFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 23 TACHWEDD, 2023

**PENDERFYNWYD llofnodi bod Cofnod Penderfyniadau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Tachwedd 2023 yn gofnod cywir.**

## 3. PENODI LLYWODRAETHWYR A.LL

Bu'r Aelod Cabinet yn ystyried y ceisiadau oedd wedi dod i law am y swyddi Llywodraethwyr Awdurdod Lleol yn y sir. Roedd gwahoddiad i gyflwyno enwebiadau wedi'i roi i'r Cadeirydd, i Bennaeth yr Ysgol ac i'r Aelod(au) Lleol yn achos Ysgolion Cynradd/yr aelod(au) a oedd yn llywodraethwyr yn achos Ysgolion Uwchradd.

Hefyd dywedwyd bod Llywodraethwyr Awdurdod Lleol yn cael eu penodi am 4 blynedd ac, os oedd y lle'n wag oherwydd bod cyfnod yr unigolyn yn y swydd yn dod i ben, bod nodyn ynghylch hynny yn y manylion am yr unigolyn os oedd am gael ei ailbenodi.

Nodwyd hefyd y gallai'r holl Gynghorwyr Sir, ar ôl cael eu hethol, bennu ar ba gyrff llywodraethu ysgolion y byddent yn eistedd, a byddai eu penderfyniad yn cael blaenoriaeth dros Lywodraethwyr Awdurdod Lleol na chafodd eu hethol. O ganlyniad, gallai Cynghorwyr Sir enwebu i wasanaethu fel Llywodraethwyr Awdurdod Lleol ar ysgol lle nad oedd lle gwag ac os oedd gormod o lywodraethwyr, byddai'r Cyngor yn nodi pa Lywodraethwr Awdurdod Lleol yr oedd yn ofynnol iddo roi'r gorau i'r swydd.

**PENDERFYNWYD, ar ôl ystyried y ceisiadau oedd wedi dod i law, benodi'r canlynol yn Llywodraethwyr Awdurdod Lleol er mwyn cyflawni'r rhwymedigaethau statudol i lenwi lleoedd gwag ar Gyrff Llywodraethu:-**

| Ysgol Gynradd | Penodiadau |
|---|---|
| Brynsaron<br>(2 swydd wag – 1 Cyfredol ac 1 o 27 Mawrth) | Y Cynghorydd Ken Howell |
| Carreg Hirfaen<br>(1 lle gwag – 1 enwebiad) | Y Parch C. Hamilton |
| Ffederasiwn Ysgolion Cross Hands a Dre-fach<br>(2 le gwag – 1 enwebiad) | Mr. A. Arnott |
| Dafen<br>(1 lle gwag – 1 enwebiad) | Mr. M. P. Jones |
| Y Ffwrnes<br>(1 lle gwag – 1 enwebiad) | Mrs L. Edmunds |
| Griffth Jones<br>(1 lle gwag – 1 enwebiad) | Y Cynghorydd Philip Hughes |
| Yr Hendy<br>(1 lle gwag – 1 enwebiad) | Y Cynghorydd Gareth Thomas |
| Llandybïe<br>(1 swydd wag o 1 2024 – 1 enwebiad) | Y Cynghorydd Anthony Davies |
| Llangadog<br>(1 lle gwag – 1 enwebiad) | Mrs M. Scott |
| Meidrim<br>(1 lle gwag – 1 enwebiad) | Y Cynghorydd Jean Lewis |
| Model<br>(2 le gwag – 1 enwebiad) | Mr. D. Maynard |
| Nantgaredig<br>(1 lle gwag – 1 enwebiad) | Mr. H. Rees |

| Ysgol Uwchradd | Penodiadau |
|---|---|
| Dyffryn Taf<br>(3 swydd wag, 2 gyfredol ynghyd ag 1 o 27 Mawrth, 2024 – 2 enwebiad) | Y Cynghorydd Sue Allen<br>Mrs. K. Owen |

**AELOD O'R CABINET** **DYDDIAD**

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council